# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Pant yr Odyn**

**96 Heol Llandeilo**
**Llandybïe**
**Rhydaman**
**SA18 3JD**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

## 10 Mawrth 2022

10/03/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Phant yr Odyn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br><br>Oedolion heb nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Swanton Care and Community (Maesteilo Care Homes) Ltd a Swanton Care & Community Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 15 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Yn gweithio tuag ato. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb

Mae llesiant y bobl sy'n byw ym Mhant yr Odyn yn cael ei hybu gan y rheolwr a'r tîm o staff. Mae'r staff yn adnabod y bobl yn dda ac mae'r hyn sy'n bwysig iddynt yn ganolog i'w gofal.

Gwneir y mwyaf o annibyniaeth ac unigoliaeth y bobl gyda gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei ddarparu. Caiff y bobl eu trin â pharch ac yn cael dewis o ran gweithgareddau byw bob dydd. Mae'r ddarpariaeth o weithgareddau'n cael ei haddasu'n dda yn dibynnu ar statws COVID-19 y cartref. Mae'r dogfennau gofal yn gywir ac mae'r unigolyn a'i gynrychiolwyr yn cael eu cynnwys wrth adolygu cynlluniau cymorth y bobl. Rhoddir meddyginiaeth fel y rhagnodir: ond mae angen gwelliannau wrth lofnodi cofnodion rhoi meddyginiaeth wrth nodi'r meddyginiaethau rhagnodedig. Mae aelodau'r teulu'n ymwneud â phenderfyniadau ac yn cael eu hysbysu o leiaf bob wythnos am lesiant y bobl a'r gweithgareddau y maent yn cymryd rhan ynddynt.

Mae gan Bant yr Odyn amgylchedd cartrefol a diogel ac mae wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i fod mor annibynnol â phosibl a chyfrannu'n aruthrol at eu hardaloedd byw gan eu gwneud yn unigryw ac yn bersonol iddynt.

Mae'r staff yn cael eu goruchwylio'n unigol yn ôl yr angen ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan yr unigolyn cyfrifol, y cyfarwyddwr gweithrediadau, y rheolwr a'r dirprwy reolwyr. Mae angen gwella'r system sydd ar waith i sicrhau bod gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu hadnewyddu mewn da bryd. Mae'r bobl yn

elwa ar wasanaeth lle maent yn flaenoriaeth, ac mae'r staff yn cael eu cefnogi ac yn cael hyfforddiant i gyflawni eu rolau'n gymwys.

## Llesiant

Anogir pob unigolyn i wneud dewisiadau er mwyn iddynt allu gwneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Mae'r bobl yn mwynhau gweithgareddau grŵp megis yr ymweliad â Fferm Ffoli a welwyd ar ddiwrnod yr arolygiad a thaith bowlio ar gyfer grŵp arall. Trefnir gweithgareddau unigol hefyd i fod yn addas i anghenion a dewisiadau'r bobl megis mynychu apwyntiadau yn y gymuned er llesiant y bobl, taith i drên stêm gyda chinio ac ymweliad â pharlwr hufen iâ lleol.

Cefnogir unigoliaeth y bobl, a gwelir hyn gyda'r dewisiadau a ddarperir i'r bobl ynghylch yr hyn y maent am ei wisgo, yr addurniadau a'r dodrefn ar gyfer eu hardaloedd byw eu hunain a'r gweithgareddau y maent yn cymryd rhan ynddynt. Hyrwyddir a chefnogir annibyniaeth a galluogir cyfranogiad â'r gymuned, gyda'r bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwaith ac addysg fel y nodir yn eu cynlluniau cymorth.  Siaredir â'r bobl yn y Gymraeg os mai dyna yw eu dewis ac mae ychydig o ddogfennau am y gwasanaeth ar gael yn y Gymraeg.

Gall y bobl gael mynediad at wybodaeth am y gwasanaeth ac maen nhw a'u cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal a'u cymorth. Mae aelodau'r teulu a'u cynrychiolwyr yn cael eu hysbysu a'u diweddaru. Cynhyrchir cylchlythyr misol ac mae'r staff yn ffonio aelodau'r teulu yn wythnosol. Rhennir lluniau o weithgareddau trwy grŵp rhyngweithiol rhwng y cartref ac aelodau'r teulu. Mae teuluoedd yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u hysbysu.
Mae gwybodaeth ysgrifenedig megis y canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth a pholisi cwynion ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Mae angen gwneud rhywfaint o waith pellach i ddiweddaru a chyfieithu'r datganiad o ddiben.

Mae diogelwch y bobl sy'n byw yn y cartref yn cael ei gynnal ac mae mesurau ar waith i amddiffyn a lleihau risg. Pan fydd llai o alluedd gan y bobl i wneud penderfyniadau, mae'r asesiadau galluedd meddyliol gofynnol yn cael eu cwblhau a chynhelir cyfarfodydd i bennu'r penderfyniadau budd pennaf.
Mae'r staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol yn ôl yr angen ac yn dilyn canllawiau diweddaraf Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch COVID-19. Mae'r bobl yn croesawu ymwelwyr â'r cartref ac mae'r darparwr yn dilyn canllawiau gan Lywodraeth Cymru. Mae'n ofynnol i ymwelwyr ddangos eu dyfais prawf llif unffordd COVID-19 wrth ymweld â'r cartref a chwblhau datganiad COVID-19. Tra bod y broses hon yn un drylwyr, mae'n cael ei chwblhau mewn modd sensitif a pharchus.

Caiff y bobl eu trin â pharch ac mae'r gweithwyr gofal yn dangos hoffter gwirioneddol tuag at y bobl sy'n byw ym Mhant yr Odyn: *"Y peth gyda'r staff yw eu bod yn wirioneddol yn poeni amdanynt".*

## Gofal a Chymorth

Darperir gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gan y gweithwyr gofal sy'n adnabod y bobl yn dda. Pennir yr oriau cymorth a ddyrennir gan asesiadau cymdeithasol ac iechyd. Gall y darparwr ddangos tystiolaeth o sut y caiff yr oriau hyn eu dyrannu i sicrhau bod cynlluniau personol yn cael eu dilyn gyda'r lefelau staffio cywir. Mae darpariaeth arfaethedig y gwasanaeth yn hyblyg i fodloni ceisiadau a dewisiadau'r bobl o ddydd i ddydd. Er enghraifft, dywedwyd wrthym, os yw un unigolyn am fynd ar daith trên, bydd hynny fel arfer yn digwydd yn fuan a chaiff y dyraniad staffio ei addasu yn unol â hynny. Mae gweithgareddau a chyfranogiad yn y gymuned yn cael ei gefnogi'n fawr gan staff Pant yr Odyn. Maent yn gwerthfawrogi pwysigrwydd creu cyfleoedd wrth iddynt godi gan ystyried yr effaith y mae COVID-19 wedi'i chael ar y cartref a'r bobl sy'n byw yn y cartref. "*Mae'r tîm yn gofalu amdanom ac mae hynny'n gwneud gwahaniaeth mawr".*

Mae'r dogfennau gofal yn fanwl ac yn llawn gwybodaeth ac mae asesiadau risg yn cael eu cwblhau yn ôl yr angen. Cwblheir cynlluniau cymorth ymddygiad personol gyda chynlluniau gofal cymhleth ychwanegol megis canllawiau addasu ar gyfer rhoi inswlin a phroffiliau epilepsi. Mae atgyfeiriadau a chyfranogiad gweithwyr proffesiynol arbenigol yn amlwg mewn cyfarfodydd a fynychwyd ac wrth drafod ag unigolion a'r staff. Gall y darparwr gael mynediad hawdd at wybodaeth am ddyddiadau brechiadau a phigiadau atgyfnerthu COVID-19 y bobl. Os nad yw rhywun wedi cael brechiad, mae cynllun unigol ar waith i sicrhau ei fod yn cael ei drefnu o amgylch anghenion yr unigolyn.

Dywedwyd wrthym fod y bobl a'u cynrychiolwyr yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd ac adolygiadau o ofal y bobl. Cynhelir adolygiadau misol gyda'r unigolyn a'i weithiwr allweddol a cheir adolygiadau chwarterol yn ôl yr angen. Mae'r darparwr yn llunio adroddiad bob chwe mis gyda throsolwg o'r hyn sy'n bwysig i'r bobl ac unrhyw ddigwyddiadau y mae angen eu hystyried yn adolygiadau a chynlluniau personol yr unigolyn. Mae aelodau'r teulu'n cadarnhau eu bod yn cymryd rhan mewn adolygiadau gofal a chyfarfodydd: "*Mae X yn gwneud yn anhygoel nawr….. Rydyn ni'n cymryd rhan ac yn cael y diweddaraf gan weithiwr allweddol X"* ac *"Rydyn ni wedi mynychu cyfarfodydd ar-lein. Mae X yn cymryd rhan fawr".*

Mae meddyginiaethau'n cael eu storio yn ystafelloedd gwely'r bobl neu mewn swyddfa feddyginiaeth ganolog. Mae'r rheolwr yn bwriadu gosod cypyrddau meddyginiaeth unigol yn ystafelloedd gwely pawb er mwyn lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â chymryd meddyginiaethau i unigolion mewn gwahanol rannau o'r cartref. Rhoddir meddyginiaethau fel y rhagnodir gyda gwiriadau meddyginiaeth dyddiol. Mae archwiliadau misol yn cael eu cwblhau, ac adroddir ar gamgymeriadau meddyginiaeth yn ôl yr angen gyda chamau gweithredu yn cael eu dilyn. Nid oedd nifer o gofnodion rhoi meddyginiaeth, a oedd wedi'u

hysgrifennu â llaw, wedi'u llofnodi yn ôl yr angen. Mae anghysondebau gyda monitro tymheredd y brif ystafell feddyginiaeth heb unrhyw gofnodion ar gyfer mis Mawrth. Er nad oes angen cymryd camau brys, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau.

## Yr Amgylchedd

Mae Pant yr Odyn yn gartref cyfforddus ac yn adlewyrchu cartref teuluol. Mae ystafelloedd gwely a mannau cymunol yn cynnwys eitemau personol i adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i'r bobl. Gwelsom y bobl yn dewis addurniadau ar gyfer y cynlluniau ailaddurno sydd ar fin digwydd. Dywedodd un aelod o staff wrthym *"Mae'n gartref oddi cartref".* Mae cyfranogiad y bobl a'u teuluoedd yn amlwg, gan sicrhau bod ardaloedd byw personol yn cynrychioli'r hyn sy'n bwysig i'r unigolion. Mae celf, crefft a lluniau teulu i'w gweld ar waliau'r bobl ac mae'r bobl yn falch o'u cyfraniad i'w hardaloedd byw. Gwelsom fod angen gwneud rhywfaint o waith ar ddwy ystafell ymolchi oherwydd bod y nenfwd a'r waliau yn llaith. Mae paneli wedi cael eu harchebu ac mae cynlluniau ar waith i gwblhau'r gwaith gan amharu gyn lleied â phosibl ar y bobl sy'n byw yn y cartref. Mae'r amgylchedd yn hwyluso ffordd o fyw'r bobl a, lle mae angen gwneud gwelliannau, mae'r staff a'r tîm rheoli yn gweithio tuag atynt.

Mae'r amgylchedd wedi'i addasu i weddu i lefelau dibyniaeth y bobl. O fewn y cartref a'r tiroedd, gellir gweld bod y darparwr yn sicrhau bod yr amser y mae'r bobl yn ei dreulio yn y cartref yn ogystal â'r gweithgareddau a fynychir i ffwrdd o'r cartref yn gallu helpu i gefnogi llesiant y bobl. Mae tŷ haf yno a thrampolîn a siglen fawr. Mae'r ardd yn hygyrch ar gyfer plannu llysiau a blodau ac mae leiniau dillad ar gael ac yn hygyrch i'r bobl sy'n byw yn y cartref. Dywedwyd wrthym sut y cafodd y cartref a'r tiroedd eu haddasu i letya'r bobl yn ystod COVID-19 ac yn ystod cyfnodau pan fydd canllawiau yn ei gwneud yn ofynnol i'r bobl aros yn y cartref a'r tiroedd. Mae mannau awyr agored diogel yn hygyrch i'r bobl.

Mae gwaith cynnal a chadw yn cael ei gwblhau mewn modd amserol gan leihau'r effaith y gall digwyddiadau ei chael ar yr amgylchedd. Mae dodrefn yn cael ei addasu i sicrhau na ellir ei ddefnyddio i achosi difrod neu niwed, ond mae'n cyd-fynd â themâu'r ystafelloedd. Mae offer trydanol megis setiau teledu yn cael eu cadw mewn cypyrddau a silffoedd addurniadol diogel a gosodir ffotograffau / lluniau allan o gyrraedd a'u diogelu i wella'r ardaloedd cymunol.

Mae archwiliadau a rhaglen o brofi offer o bryd i'w gilydd yn dangos bod gwiriadau cynnal a chadw yn cael eu gwneud yn ôl yr angen. Mae'r rhain yn cynnwys profi offer diogelwch tân, asesiad risg tân ac asesiad risg legionella.

Mae'n ofynnol i ymwelwyr ddangos eu prawf dyfais llif unffordd COVID-19 wrth ymweld â'r cartref. Mae cyfarpar diogelu personol ar gael yn hawdd ac yn cael ei storio'n ddiogel ac yn cael ei ddefnyddio gan y staff. Mae'r staff yn wyliadwrus wrth sicrhau bod cynhyrchion

glanhau a all fod yn niweidiol yn cael eu storio'n ddiogel. Defnyddir codau drws wrth fynd i wahanol rannau o'r cartref i sicrhau diogelwch y bobl sy'n byw ym Mhant yr Odyn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r gwasanaeth yn cael ei oruchwylio gan dîm rheoli ymroddedig ac effeithiol sy'n ymdrechu i sicrhau datblygiad a gwelliant parhaus y gwasanaeth. Siaradodd y staff yn gadarnhaol am y rheolwr a'r dirprwy reolwyr. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn ôl yr angen a chynhelir ymweliadau anffurfiol ychwanegol. Dywedwyd wrthym fod y cyfarwyddwr gweithrediadau yn ymweld â'r cartref yn aml ac yn darparu cefnogaeth yn aml. Roedd adborth y staff yn dangos hyn, megis *“Rwy’n teimlo fy mod yn cael cefnogaeth dda ac mae gen i amser i gefnogi hefyd”* ac *“Mae gennym dîm staff da iawn”.*

Gwiriwyd prosesau recriwtio. Ni ellid cadarnhau tystiolaeth o wiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer tri aelod o staff. Nid oedd y system a oedd ar waith wedi tynnu sylw'r rheolwr at y gofyniad i adnewyddu gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y staff. Ar ôl rhai ymholiadau, cafodd y rheolwr gadarnhad bod dau o’r gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u casglu ond nid oedd un wedi'i gyhoeddi tan dair wythnos ar ôl i'r un blaenorol ddod i ben. Nid yw’r system sydd ar waith yn sicrhau bod ceisiadau ar gyfer gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn digwydd mewn modd amserol. Mae hwn yn faes i’w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod digon o weithwyr gofal gwybodus, cymwys a medrus i ddarparu cymorth priodol i’r bobl er mwyn cyflawni eu canlyniadau personol. Mae mwyafrif y staff wedi derbyn hyfforddiant gofynnol a hyfforddiant arbenigol i'w galluogi i gefnogi’r bobl yn briodol. Mae'r darparwr wedi hyfforddi staff i gyflwyno hyfforddiant rheoli ymddygiad personol yn fewnol a darperir yr hyfforddiant hwn wyneb yn wyneb. Adlewyrchir hyn yng nghofnodion hyfforddi'r staff. Mae mwyafrif y staff yn derbyn sesiynau goruchwylio unigol rheolaidd.

Mae gan y bobl fynediad at wybodaeth am y gwasanaeth a ddarperir mewn fformat sy'n addas iddynt. Mae hyn yn cynnwys mynediad at y canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth diweddaraf sydd ar ffurf llun ac sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Mae datganiad o ddiben ar gael. Mae'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwr yn y broses o ddiweddaru hwn.

Mae'r rheolwr a'r tîm yn agored ac yn dryloyw. Caiff digwyddiadau hysbysadwy eu hadrodd i'r asiantaethau perthnasol pan fo hynny'n berthnasol, gan gynnwys cyflwyno hysbysiadau i AGC. Roedd y bobl sy'n byw ym Mhant yr Odyn yn llawn cyffro i ddweud wrthym am eu diwrnodau a sut beth yw byw ym Mhant yr Odyn. *“Oes, mae gen i help. Rydyn ni i gyd yn cael help mewn gwirionedd”* ac *"Ydw, dwi'n hoffi byw yma”.*

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant y bobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf.  Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 58 | Nid yw cofnodion rhoi meddyginiaeth a ysgrifennwyd â llaw bob amser yn cael eu llofnodi yn ôl yr angen ac | Newydd |

| | | |
|---|---|---|
| | mae anghysondebau gyda monitro tymheredd y brif ystafell feddyginiaeth. | |
| 35 | Nid yw system y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sydd ar waith yn sicrhau bod y gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd y gofynnir amdano yn cael ei dderbyn cyn i'r un cyfredol ddod i ben. | Newydd |

**Dyddiad cyhoeddi** 25/04/2022